

DAB ar raddfa fach (DAB bach): Cais am Ddatganiadau o Ddiddordeb Darparu gwybodaeth ar gyfer gofynion cynllunio sbectrwm mewn perthynas â fframwaith trwyddedu i'r dyfodol

Roedd Deddf Darlledu (Gwasanaethau Amblecs Radio) 2017 ("Deddf 2017") yn gwneud darpariaeth ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio gwasanaethau amblecs radio bach. Yn benodol, roedd yn darparu ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth a fyddai'n golygu bod darpariaethau penodol dan Ddeddf Darlledu 1996 a/neu Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ynghyd ag addasiadau priodol, yn berthnasol i amblecsau radio bach. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") yn awr yn gweithio ar yr is-ddeddfwriaeth yma, ac yn gynharach eleni fe gynhaliodd ymgynghoriad ar elfennau craidd dull trwyddedu newydd¹.

Ochr yn ochr ag ymgynghoriad DCMS, a heb leihau effaith ei ganlyniadau, mae Ofcom yn gwneud gwaith paratoi, er mwyn i ni fod mewn sefyllfa i symud ymlaen yn brydlon os a phan fydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth ofynnol. Mae hyn yn cynnwys edrych ar opsiynau cynllunio amledd. I gyfrannu at y gwaith cynllunio technegol hwn a'r broses drwyddedu ddilynol, mae Ofcom yn awr yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan bartion sydd am weithredu amblecsau DAB bach a/neu sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau ar yr amblecsau hyn.

Bydd Ofcom yn defnyddio'r ymatebion o'r datganiadau o ddiddordeb hyn i'n helpu i ddeall lefel debygol y galw gan y rheini sydd am weithredu amblecsau DAB bach a'r gwasanaethau a all gael eu cludo arnynt. Bydd y gwaith cynllunio sbectrwm rhagarweiniol hwn yn ein helpu i roi trefn drwyddedu barhaol ar waith, unwaith y bydd yr is-ddeddfwriaeth ofynnol wedi'i sefydlu.

Dangosol yn unig yw'r datganiadau o ddiddordeb; nid ydynt yn rhwymo ac ni fyddant yn rhoi unrhyw hawliau i bartion sy'n ymateb. Nid yw cyflwyno datganiad o ddiddordeb yn rhoi dim sicrwydd o gwbl y bydd lleoliad sy'n cael ei gynnig, na'r sawl sy'n cyflwyno'r cynnig, yn cael cynnig trwydded wedyn. Bydd yn helpu Ofcom i baru'r adnoddau sbectrwm sydd ar gael â'r patrwm galw a fydd wedi'i fynegi. Ond bydd y gwaith o drwyddedu'r amblecsau yn y pen draw yn destun proses gystadleuol agored lle na fydd cyflwyno datganiad o ddiddordeb yn flaenrol yn rhoi unrhyw fantais.

Mae Ofcom yn gwahodd partion sydd â diddordeb mewn darparu amblecsau DAB bach, a/neu wasanaeth rhaglenni ar amblecs DAB bach mewn unrhyw ran o'r DU, i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb. Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb, byddwn yn disgwyl cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol am y datganiadau a dderbyniasom, fel mapiau a rhestrau lleoliad i grynhoi'r data a gyflwynwyd. Nid ydym yn bwriadu enwi unigolion neu gwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithredu amblecs neu ddarparu gwasanaeth ar amblecs.

Mae Ofcom ar hyn o bryd yn bwriadu ymgynghori ar sut y bydd yn bwriadu gweithredu fframwaith trwyddedu DAB bach yn gynnar yn 2019. Ond bydd yr union amser yn dibynnu ar pryd y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r deddfwriaeth ofynnol yn y Senedd. Bydd canlyniadau'r cais hwn am

¹ 'Small Scale DAB Licensing Consultation' dated 4 January 2018:
<https://www.gov.uk/government/consultations/small-scale-dab-licensing-consultation>

ddatganiadau o ddiddordeb yn fewnbwn pwysig i gynllun yr ardaloedd gwasanaeth a'r fframwaith trwyddedu y byddwn yn ymgynghori yn ei gylch.

At ddibenion ein gwaith presennol, bydd Ofcom yn ystyried sawl datganiad o ddiddordeb gan un parti ar gyfer ardaloedd gwahanol yn y DU. Ond, o dan Ddeddf 2017, dylai'r ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gallai'r fframwaith trwyddedu terfynol wneud darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar gymhwysedd i ddal trwyddedau, gan gynnwys cyfyngu ar nifer y trwyddedau sy'n cael eu dal.

Dylai'r wybodaeth a geisir (fel y nodir isod) gael ei darparu ar gyfer pob lleoliad daearyddol o ddiddordeb.

Rydym yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth:

- Unigolion neu gwmnïau sy'n awyddus i weithredu amblecs DAB bach yn y dyfodol; a
- Gwasanaethau rhaglenni (gan gynnwys gwasanaethau posibl yn y dyfodol) sydd am gael eu cludo ar amblecs DAB bach yn y dyfodol.

Fel y nodwyd uchod, nid yw'r cais hwn am ddatganiadau o ddiddordeb yn rhan o unrhyw broses ymgeisio ffurfiol ac ni fydd yn cael ei gymryd fel ymrwymiad rhwymol i weithredu amblecs DAB bach neu gludo cynnwys. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw wahoddiadau yn y dyfodol i ymgeisio am drwydded amblecs DAB bach yn cael ei gyfyngu i'r rheini sydd wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb cyn hynny.

Pennir y paramedrau terfynol ar gyfer maint amblecsau DAB bach gan yr is-ddeddfwriaeth. Ond, fel canllaw yn unig i'r rheini sy'n cyflwyno datganiadau o ddiddordeb, nodwn fod y Llywodraeth wedi dweud o'r blaen na ddylai amblecs DAB bach fod yn fwy na 40% o ardal y drwydded amblecs DAB lleol gyfredol lle mae wedi'i leoli (DCMS - Ymgynghoriad ar Drwyddedu DAB Bach, Ionawr 2018)¹. Hefyd, bydd penderfyniad terfynol Ofcom am faint a siâp ardaloedd y trwyddedau amblecs DAB bach yn dibynnu ar faint o sbectrwm sydd ar gael.

Ni fydd yr ardaloedd daearyddol sy'n cael eu cynnig mewn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn gwarantu y bydd amblecs DAB bach penodol yn cael ei hysbysebu yn unol â'r cais. Mewn rhai lleoliadau a fydd yn cael eu cynnig gan bartïon sydd â diddordeb, efallai y bydd angen cyfuno ardaloedd. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen rhannu ardaloedd mwy yn amblecsau llai. Efallai y bydd Ofcom yn gweld nad oedd digon o sbectrwm ar gael ar gyfer y datganiadau o ddiddordeb mewn ardaloedd lle mae'r galw'n fawr.

Sylwch na fyddwn yn tybio bod cyfrannu at y treialon DAB ar raddfa fach presennol yn awtomatig yn arwydd y bydd diddordeb yn y dyfodol. O'r herwydd, dylai unrhyw wasanaeth neu weithredwr amblecs sy'n gysylltiedig â threal DAB bach gyflwyno datganiad o ddiddordeb i Ofcom os ydynt am barhau i redeg amblecs bach neu gludo ar amblecs ar ôl i'r treialon ddod i ben.

Yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer datganiadau o ddiddordeb i redeg amblecs DAB bach.

Dylid cyflwyno ffurflen yn datgan diddordeb ar gyfer pob ardal o ddiddordeb. Rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- Enw'r sefydliad a'i fanylion cyswllt

- Map sy'n dangos yn glir
 - y prif ganolfannau poblogaeth a ffyrdd yn/o gwmpas yr ardal gwasanaeth arfaethedig
 - llinellau yn dangos yr ardal sy'n cael ei chynnig ar gyfer y ddarpariaeth
 - croes yn dangos lleoliad(au) arfaethedig pob un trosglwyddydd
- Manylion y trosglwyddydd(ion) arfaethedig gan gynnwys enw'r safle, cyfeirnod grid, uchder arfaethedig yr antenna uwchlaw lefel y ddaear
- Pŵer pelydru effeithiol (ERP) arfaethedig a phatrwm yr antenna (os yw'n hysbys)

Cofiwch am yr arweiniad uchod am faint tebygol ardaloedd darpariaeth yr amlblecsau bach o'i gymharu â'r ardaloedd sy'n dod o dan yr amlblecsau DAB lleol presennol.

Yr wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer datganiadau o ddiddordeb i gludo gwasanaeth ar amlblecs DAB bach

Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn datganiad o ddiddordeb:

- Enw'r sefydliad a'i fanylion cyswllt
- Map gyda llinellau yn dangos yr ardal yr hoffech i'ch gwasanaeth fod ar gael ynddi. Os oes gennych ddiddordeb mewn darparu gwasanaeth mewn mwy nag un ardal, cyflwynwch fap ar gyfer pob ardal.

Cofiwch am yr arweiniad uchod am faint tebygol ardaloedd darpariaeth yr amlblecsau bach o'i gymharu â'r ardaloedd sy'n dod o dan yr amlblecsau DAB lleol presennol.

Sut i ymateb i'r cais hwn am ddatganiadau o ddiddordeb

Defnyddiwch y ddolen ganlynol i fynd at y ffurflen ofynnol:

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/small-scale-dab-interest>

Llenwch Dablau 1 a 2 ar gyfer datgan diddordeb mewn gweithredu amlblecs DAB bach a/neu Dabl 3 ar gyfer datgan diddordeb ar gyfer gwasanaeth sydd i'w gludo ar amlblecs DAB bach.

Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb dros yr e-bost neu mewn llythyr at:

smallscaleDAB@ofcom.org.uk

Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Rd
London
SE1 9HA

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb yw 5pm ar 21 Medi 2018.

I gael rhagor o wybodaeth am y treialon DAB bach cyfredol, ewch i wefan Ofcom:

<https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/small-scale-trial-multiplex-licensing>

Rydym yn argymhell y gryf bod partïon sydd â diddordeb yn cadw golwg ar wefan Ofcom neu'n cofrestru i dderbyn hysbysiadau am y maes darlledu gan Ofcom:

<https://confirmsubscription.com/h/i/7D1B465C1F301F71>

Y camau nesaf

Mae Ofcom yn bwriadu casglu'r wybodaeth a fydd wedi'i derbyn o fewn pedair wythnos i'r dyddiad cau a chyhoeddi dau fap sy'n cynnwys y DU i gyd a rhestr o ardaloedd a nodwyd mewn datganiadau o ddiddordeb, un yn dangos y diddordeb mewn gweithredu amblecs ac un yn dangos y diddordeb mewn gwasanaeth rhaglenni. Ni fyddwn yn enwi unigolion na'r endidau sy'n mynegi diddordeb.